

Pecyn Gwybodaeth Grantiau Cymunedol Gŵyl Gwanwyn 2019

Mae Gwanwyn yn ŵyl genedlaethol sy'n para mis, a gynhelir ledled Cymru ym mis Mai bob blwyddyn, i ddathlu creadigrwydd ymhlith pobl hŷn.

Nod yr ŵyl yw:

- dathlu cyfle pobl hŷn i adnewyddu, tyfu a chreu, sef bywyd newydd, a dyna yw arwyddocâd yr enw 'Gwanwyn'.
- cynnig cyfleoedd i bobl hŷn gael cymryd mwy o ran yn y celfyddydau, fel paentio, ffotograffiaeth, cerddoriaeth, drama, adrodd straeon, llenyddiaeth, dawns neu ffilm, yn ystod mis Mai.
- hyrwyddo buddion i iechyd a lles pobl hŷn trwy gymryd rhan mewn gweithgareddau artistig a chreadigol mewn cymunedau lleol a ledled Cymru gyfan.
- herio syniadau rhagdybiedig ac ystrydebol am heneiddio a phobl hŷn.
- hyrwyddo a datblygu arfer gweithio artistiaid proffesiynol i gynnwys darpariaeth ar gyfer pobl hŷn a'u cymunedau.
- amlygu cyfleoedd newydd a rhai sydd eisoes yn bodoli mewn cymunedau lleol ledled Cymru.
- gweithio gyda phartneriaid yn genedlaethol ac yn rhyngwladol i wella ansawdd ac argaeledd y celfyddydau ar gyfer pobl hŷn a gyda nhw mewn ystod eang o leoliadau amrywiol

Mae Gwanwyn yn fenter gydweithrediadol rhwng sefydliadau cenedlaethol allweddol a arweinir gan Age Cymru ac a ariennir gan Gyngor Celfyddydau Cymru a Llywodraeth Cymru; mae'n gweithio'n agos ag ystod eang o sefydliadau cenedlaethol a lleol; mae'n amrywio o grwpiau celf lleol, grwpiau bywiog o bobl wedi ymddeol a grwpiau cymunedol, llyfrgelloedd cyhoeddus, amgueddfeydd, theatrau, byrddau iechyd lleol, ysgolion a chanolfannau gofal.

Mae Gwanwyn yn gweithredu cynllun grantiau cymunedol i gynorthwyo sefydliadau sy'n dymuno cymryd rhan yn yr ŵyl. Diben y pecyn gwybodaeth hwn yw eich helpu chi i:

- a. ddeall y mathau o ddigwyddiadau y gallwn eu cynorthwyo, a
- b. darparu ffurflenni syml sydd eu hangen arnoch i wneud cais am gyllid.

Byddem yn gofyn i chi wneud cais am y swm o arian sy'n hollol angenrheidiol ar gyfer eich digwyddiad yn unig. Yn syml, os mai £250 sydd ei angen arnoch, a wnewch chi wneud cais am £250 (**uchafswm o £500**). Bydd hyn yn ein galluogi ni i gynorthwyo'r nifer fwyaf o ddigwyddiadau ag y gallwn ni.

Mae'r cynllun yn gronfa gystadleuol. Cyfanswm y cyllid sydd ar gael ar gyfer y rhaglen gyfan yw £20,000. Mae gormod o geisiadau'n cael eu gwneud ar gyfer y cynllun, felly gwnewch yn siŵr bod eich cais yn gyflawn a'ch bod chi'n esbonio hyd eithaf eich gallu yr effaith y bydd eich prosiect yn ei chael ar bobl hŷn o ran cael mynediad at y celfyddydau a gweithgarwch creadigol yng Nghymru a chymryd rhan ynddynt.

Os ydych chi'n trefnu digwyddiad sydd angen mwy o gymorth na all ein cynllun grant cymunedol ei gynnig, cysylltwch â chydlynedd yr ŵyl ac fe wnawn ni ein gorau i'ch helpu chi i archwilio a dod o hyd i gymorth o ffynonellau eraill.

Hefyd, os ydych chi'n trefnu digwyddiad ac nid oes angen cymorth ariannol arnoch, rhowch wybod i gydlynedd yr ŵyl, gan efallai y gallech elwa ar gyhoeddusrwydd a hyrwyddo ar y cyd o dan faner Gŵyl Gwanwyn, yn ogystal â bod yn rhan annatod o ŵyl genedlaethol uchel ei pharch.

I fod yn gymwys i gael eich ystyried ar gyfer un o'r grantiau cymunedol hyn, bydd angen i chi sicrhau bod eich ffurflen cais am gyllid yn cael ei derbyn erbyn **dydd Gwener 7 Rhagfyr 2018** fan bellaf.

E-bost: gwanwyn@agecymru.org.uk

Ffôn: 029 20 431 555

Os, ar ôl darllen y wybodaeth yn y ddogfen hon, byddwch eisiau trafod eich syniadau gyda chydlynedd yr ŵyl, cyn cyflwyno eich cais am gyllid, defnyddiwch y manylion cyswllt uchod. Yn aml, gall gymryd ychydig o amser i droi syniad da yn gais llwyddiannus, felly awgrymwch eich bod chi'n dechrau'r broses cyn gynted â phosibl... nid yw hi byth yn rhy gynnar!

Gallwch gysylltu â ni trwy ffonio 029 20 431 555 a gofyn am dîm Gwanwyn, os oes angen help neu gyngor arnoch.

Bydd y ceisiadau'n cael eu hadolygu ym mis Rhagfyr a bydd yr ymgeiswyr llwyddiannus yn cael eu hysbysu ar ôl 4 Ionawr. Bydd angen cyflawni'r prosiectau yn ystod mis Mai 2017.

Os bydd eich digwyddiad yn fwy o ran cwmpas neu gyllideb na'r hyn y bydd y cynllun grant cymunedol yn talu amdano, cysylltwch â ni a byddwn yn gallu eich helpu chi i geisio dod o hyd i gyllid arall neu ffyrdd cydweithredol posibl o weithio gyda'n gilydd yn y dyfodol. Hefyd, os oes angen i chi gynnal y digwyddiad y tu allan i fis Mai, cysylltwch â ni i drafod hyn.

2019 - Newidiadau i'r cynllun grant

Mae Gwanwyn yn bodoli i **ddathlu creadigrwydd** pobl hŷn, i **annog cymryd rhan** mewn gweithgaredd artistig ac i herio **stereoteipiau o heneiddio**. Mae gennym ddiddordeb arbennig mewn ceisiadau sy'n mabwysiadu agwedd **arloesol** tuag at ennyn diddordeb ac annog pobl hŷn i gymryd rhan mewn gweithgareddau celfyddydol a chreadigol.

Rydym yn croesawu ceisiadau sy'n gweithio mewn ffyrdd newydd ac yn gallu cynnig rhywbeth ychydig yn wahanol i'r norm. Edrychwch ar www.gwanwyn.org.uk am enghreifftiau o'r math o brosiectau yr ydym wedi'u cefnogi yn y gorffennol.

Byddem yn annog ymgeiswyr i feddwl am ffyrdd y gallant gynnig rhywbeth mwy anarferol neu heriol i'w cynnig traddodiadol a byddem yn edrych yn fwy ffafriol ar geisiadau sy'n gallu dangos y potensial i roi cynnig ar rywbeth newydd.

Fel yr awgryma'r enw, mae'r wyl Gwanwyn yn ymwneud â thwf, adnewyddu a chyfle; rydym am gefnogi gweithgaredd sy'n dathlu'r presennol, ac sydd hefyd yn edrych tua'r dyfodol. Er ein bod yn cydnabod gwerth gweithgarwch sy'n hel atgofion, bydd cynllun grant 2019 yn blaenoriaethu ceisiadau sy'n rhoi cynnig ar ddulliau newydd ac sy'n gallu arddangos gweithgaredd sy'n cefnogi'r themâu o dwf, adnewyddu a chyfle.

Meini Prawf y Prosiect

Mae'r canlynol yn rhestru'r set o ganllawiau ar gyfer trefnwyr digwyddiad Gwanwyn. Mae'n **rhaidd bodloni maen prawf un a dau**, o leiaf, yn ogystal ag **o leiaf un o'r meini prawf eraill**, er mwyn i gais am gymorth gael ei ystyried.

1. **Bydd y digwyddiad yn rhoi cyfle i bobl hŷn (yn enwedig y rheiny sy'n arunig yn gymdeithasol neu sy'n byw mewn amgylchiadau dan anfantais) gael profiad oweithgarwch artistig a/neu greadigol neu gymryd rhan ynddo (e.e. celf, cerdd, dawns, ffilm, adrodd straeon a.y.y.b.).**
2. **Cynhelir y digwyddiad gan sefydliad sefydledig**
3. Bydd y digwyddiad yn rhoi cyfle i hyrwyddo gweithgarwch artistig neu greadigol a fydd yn cynorthwyo iechyd a lles cyffredinol pobl hŷn.
4. Bydd y digwyddiad yn cynnig cyfle i berfformio, arddangos neu ddangos enghreifftiau o waith y grŵp i aelodau o'r cyhoedd.
5. Bydd y digwyddiad yn cael ei drefnu'n bennaf ar gyfer cyfranogwyr neu fuddiolwyr dros 50 oed.
6. Bydd y digwyddiad yn rhoi cyfle i herio delweddau negyddol neu ystrydebol o bobl hŷn yn y gymuned.
7. Diben y digwyddiad fydd annog a denu aelodau, cyfranogwyr, cleientiaid neu ddefnyddwyr gwasanaeth newydd ar gyfer y sefydliad cynhaliol.

Ar ôl i geisiadau unigol gael eu hasesu, mae'r panel yn cadw'r hawl i gael cipolwg terfynol ar yr holl brosiectau er mwyn dewis y rheiny sy'n bodloni ein hoffter i gael ystod eang o brosiectau (daearyddol, math o ddigwyddiad, cymysgedd o fentrus / llai mentrus, arloesiadau radical / cynyddol).

Rydym yn annog ceisiadau sy'n gallu dangos ariannu cyfatebol (h.y. nid Gwanwyn sy'n ariannu 100% o gyfanswm cost y prosiect) er mwyn cynyddu effaith y cynllun.

Eitemau na fydd Gwanwyn yn eu hariannu

Ni fydd yr eitemau canlynol yn gymwys i dderbyn cyllid Gwanwyn. Bydd cynnwys yr eitemau hyn yn anghymwysu cais am gymorth:

- costau cynnal craidd h.y. gorbenion, rheoli, gweinyddu swyddfa
- costau offer cyfalaf
- cyllid ar gyfer gweithgarwch rheolaidd (e.e. dosbarthiadau addysgu i oedolion) a ariennir fel arfer trwy Lywodraeth Cymru, awdurdod lleol neu gan sefydliadau a ariennir yn bennaf gan Gyngor Celfyddydau Cymru

cyllid ar gyfer teithiau dydd, fel teithiau i'r theatr, amgueddfeydd neu weithgareddau diwylliannol eraill

- ceisiadau gan unigolion (*O.N. Os ydych chi'n unigolyn proffesiynol a bod gennych chi ddiddordeb mewn cyflwyno syniad neu gais, cysylltwch â chydlynnydd yr ŵyl i'w drafod)